



GWASANAETH DATBLYGU  
GWEITHLU GOFAL CYMDEITHASOL

**CWM TAF**

SOCIAL CARE WORKFORCE  
DEVELOPMENT SERVICE

Un sector : un gweithlu • one sector : one workforce

# AMSERLEN HYFFORDDIANT AR GYFER DARPARWYR GOFAL UNIONGYRCHOL I OEDOLION

## Awdurdod Lleol

Ebrill 2024 –  
Medi 2024

## Tabl o Gyrsiau Hyfforddi

<b>Cwrs</b>	<b>Hyfforddwr/wraig</b>	<b>Rhif</b>	<b>Trefnydd</b>
<b><i>Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol – Hyfforddiant dros TEAMS</i></b>			
Bwyta â Chymorth (Pobl Hŷn)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Therapi Lleferydd	11	Sarah Williams
Profedigaeth a Cholled	Hosbis y Cymoedd	12	Sarah Williams
Iechyd y Bledren a'r Coluddyn	Nyrsys Clinigol Arbenigol - Carfan y Bledren a'r Coluddion	13	Sarah Williams
Gofal Dementia – Wyneb yn Wyneb	Tony Waters	14	Sarah Williams
Ymwybyddiaeth o Ddiabetes	Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf	15	Sarah Williams
Colli Rhyddid	Roger Laidlaw	16	Sarah Williams
Ymwybyddiaeth o Epilepsi	Epilepsy Action Cymru	17	Sarah Williams
Atal Pobl Rhag Cwmpo	Carfan Atal Pobl Rhag Cwmpo	18	Sarah Williams
Clefyd Huntington	Cymdeithas Clefyd Huntington	19	Sarah Williams
Atal Wiserau sy'n Ffurio o Ganlyniad i Bwysedd	Canolfan Arloesedd Clwyfau Cymru (WWIC)	20	Sarah Williams
Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes	Hosbis y Cymoedd	21	Sarah Williams
Clefyd Parkinson	Sharon Jones	22	Sarah Williams
Y System Anadlu.	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	23	Sarah Williams
Deall Strôc	Helen Waters	24	Sarah Williams
<b><i>Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol – Gwybodaeth am Becynnau E-Ddysgu</i></b>			
Rhestr o Becynnau E-ddysgu		25 - 28	Sarah Williams
<b><i>Codi a Chario/Cymorth Cyntaf</i></b>			
A&B Codi a Chario	Carfan Codi a Chario Cwm Taf Morgannwg	31	Cath Brown
Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (3 Diwrnod)	Carfan Codi a Chario Cwm Taf Morgannwg	32	Cath Brown
Cymorth Cyntaf yn y Gwaith – Ailgofrestru (2 ddiwrnod)	Carfan Codi a Chario Cwm Taf Morgannwg	33	Cath Brown
Cymorth Cyntaf Brys (diwrnod)	Carfan Codi a Chario Cwm Taf Morgannwg	34/35	Cath Brown
Diweddarau Sgiliau Sylfaenol	Carfan Codi a Chario Cwm Taf Morgannwg	36	Cath Brown
<b><i>Sefydlu Staff Gofal Cymdeithasol</i></b>			
Sefydlu Staff Gofal Cymdeithasol	Amrywiol	39 - 53	Jillian Davies
<b><i>Hyfforddiant Diogelu Oedolion Cwm Taf</i></b>			
Ymholiadau Adran 126	Jackie Neale	56	Jillian Davies
Grŵp B (Lefel 2 yn flaenorol) Cwrs gloywi Diogelu Lefel 2 ar gyfer Staff Gofal Uniongyrchol	Carfan FfCCh	57	Jillian Davies
Rolau a Chyfrifoldebau diogelu sy'n canolbwyntio ar unigolion a'r unigolyn – Lefel 3	Diogelu yng Nghwm Taf	58	Jillian Davies

<b>Cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol:</b>			
Cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol:	Carfan FfCCh	59 / 60	Jillian Davies
<b><i>Ffurflen Cadw Lle</i></b>			
Ffurflen Cadw Lle		61	
Cyrsiau Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn ôl dyddiad		62 / 65	

**Croeso** i'r rhifyn yma o amserlen hyfforddiant Gwasanaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf ar gyfer Ebrill 2024–Medi 2024.

**Dyma brif nodweddion y rhaglen:**

- Mae'r rhaglen wedi'i chyhoeddi mewn fformat sy'n galluogi rheolwyr i drefnu eu bod yn rhoi gwybod i staff am gyrsiau a allai fod o fudd iddyn nhw.
- Mae'r cyrsiau wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor.
- Yn ogystal â hynny, mae calendr ar ddiwedd yr amserlen sy'n dangos pryd y caiff pob sesiwn hyfforddiant ei gynnal.
- Bydd modd i chi enwebu staff **bedwar mis** ymlaen llaw. Serch hynny, nodwch mai dim ond 7 wythnos ymlaen llaw y byddwch chi'n derbyn cadarnhad o leoedd.
- Rydyn ni wedi cyhoeddi dyddiadau'r achlysuron sydd ar ddiwedd y cyfnod er gwybodaeth yn unig. Nod hyn yw eich helpu i drefnu amserlenni ac ati.
- Mae'r hyfforddiant yma ar gael i staff sy'n gweithio ledled Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful ac eithrio bod manylion y cwrs yn nodi fel arall.
- Pe hoffech chi weld hyfforddiant sy'n ymdrin ag unrhyw faterion penodol yn rhan o unrhyw raglen yn y dyfodol, e-bostiwch y swyddog hyfforddi perthnasol:
  - Sarah Williams – hyfforddiant ar gyfer gwaith gofal uniongyrchol mewn lleoliadau preswyl, gofal yn y cartref a chanolfannau dydd – [Sarah.J.Williams@rctcbc.gov.uk](mailto:Sarah.J.Williams@rctcbc.gov.uk).
  - Am ymholiadau mewn perthynas â chodi a chario a chyingor ar gymorth cyntaf, e-bostiwch Catherine Brown [Catherine.D.Brown@rctcbc.gov.uk](mailto:Catherine.D.Brown@rctcbc.gov.uk). Nodwch fod holl amser Catherine ar y funud yn cael ei dreulio yn cynnal cyrsiau lechyd a Diogelwch a fydd dim modd iddi helpu i ddarparu hyfforddiant.
  - Am ymholiadau mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol, diogelu neu gyrsiau ymsefydlu, e-bostiwch [Kathleen.McMullen@rctcbc.gov.uk](mailto:Kathleen.McMullen@rctcbc.gov.uk).
- Nodwch fod cyfyngiad ar nifer y sesiynau hyfforddiant lechyd a Diogelwch y mae modd i ni eu cynnal o dan amodau'r grant. Mae hyn oherwydd bod y pynciau yma'n gyfrifoldeb statudol ar y cyflogwr.
- Mae'r holl hyfforddiant ar yr amserlen yma'n parhau i fod am ddim.

Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig bellach wedi trosglwyddo i fformat digidol.

## Proses cadw lle

Pe hoffech chi fynd ar unrhyw un o'r cyrsiau yn y rhaglen yma, llenwch y ffurflen cadw lle electronig a gafodd ei hanfon â'r amserlen gan nodi'n glir eich cwrs a'r dyddiad hoffech chi fynychu. Pe hoffech chi gael fersiwn o'r ffurflen yma drwy e-bost, neu os oes gyda chi unrhyw ymholiadau, anfonwch e-bost i [Deana.Newport@rctcbc.gov.uk](mailto:Deana.Newport@rctcbc.gov.uk).

Edrychwch ar y "**Gynulleidfa Darged**" yn ofalus cyn enwebu unrhyw un fel bod modd i bobl fynd ar y cyrsiau sy'n eu gweddu nhw orau. Mae rhai o'r cyrsiau ar gyfer pobl sy'n gweithio yn Rhondda Cynon Taf neu ym Merthyr Tudful yn unig. Mae'n bwysig felly eich bod chi'n gwirio manylion y cwrs cyn enwebu rhywun i gymryd rhan.

Mae llawer o'n cyrsiau yn boblogaidd iawn a chaiff llefydd arnyn nhw eu cadw'n gyflym iawn fel arfer. Peidiwch ag anfon staff sydd wedi bod ar yr un cwrs eisoes, ac eithrio ei fod yn gyfle datblygu parhaus.

Os bydd aelod newydd o staff yn ymuno â chi, dylech chi holi a ydyn nhw wedi bod ar gyrsiau wedi'u cynnal gan y Garfan Hyfforddi a Datblygu gyda'u cyflogwyr blaenorol.

Rhaid i chi **enwi** aelod o staff wrth lenwi ffurflen cadw lle. Allwn ni ddim cadw lle i staff sydd heb gael eu henwi. Mae hyn oherwydd does dim modd i ni nodi'r data ar ein system gyfrifiadurol a chadw lle heb yr wybodaeth yma.

Unwaith i chi gwblhau'r ffurflen, anfonwch hi drwy e-bost at [HyfforddiantGofalCymdeithasol@rctcbc.gov.uk](mailto:HyfforddiantGofalCymdeithasol@rctcbc.gov.uk)

Rydyn ni angen cyfeiriad e-bost y sawl sy'n cymryd rhan er mwyn iddo/iddi ymuno â'r hyfforddiant.

Rydyn ni'n gweithio ar system newydd i sicrhau bod rheolwyr yn cael gwybod am leoedd sydd wedi cael eu dyrannu. Os oes angen i chi wirio a yw staff wedi cael lle, e-bostiwch y Garfan Hyfforddiant: [HyfforddiantGofalCymdeithasol@rctcbc.gov.uk](mailto:HyfforddiantGofalCymdeithasol@rctcbc.gov.uk)

Os oes mwy o geisiadau'n dod i law na nifer y lleoedd, bydd enwau'r rheiny sy heb gael lle yn cael eu nodi ar restr wrth gefn.

Bydd cadarnhad yn cael ei anfon i'r sefydliad sydd wedi cadw lle ar y cwrs hyfforddi pum wythnos cyn yr achlysur. Y rheolwyr sy'n gyfrifol am rannu'r wybodaeth yma â'r staff cyn y cwrs. Byddwn ni'n anfon rhaglen y cwrs yn gadarnhad terfynol ein bod ni wedi cadw lle i unigolion ar y cwrs hyfforddi. Os fydd dim digon o bobl wedi cofrestru ar gyfer cwrs, efallai bydd y cyfnod amser yn newid.

Os bydd angen i chi anfon aelod arall o staff ar y cwrs oherwydd salwch neu absenoldeb, rhowch wybod i aelod o'r garfan weinyddol cyn gynted ag y bo modd.

Dylech chi sicrhau bod pob aelod o staff sy'n cael hyfforddiant wedi dilyn y weithdrefn cadw lle yma. Fydd dim modd i staff sydd heb eu cofrestru gymryd rhan.

Os oes unrhyw ymholiadau gyda chi mewn perthynas â'r broses cadw lle, cysylltwch â'r swyddog hyfforddi priodol.

Byddwn ni ond yn derbyn cais i ganslo lle ar gwrs 7 diwrnod cyn dyddiad yr hyfforddiant. Os daw'r cais i law i ganslo'r lle ar ôl y dyddiad yma, caiff nodyn 'heb ei fynychu' ei roi yn erbyn enw'r unigolyn. Mae hyn am fod rhaid i'r adran hyfforddi gael digon o amser i ail-hysbysebu'r lle hyfforddi er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol, ac er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant ddim yn mynd i wastraff.



## **Rhaglen Meini Prawf Cymhwysedd Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf ar gyfer cyrchu cyrsiau 2024-25**

*(Ac eithrio cyrsiau hyfforddi diogelu)*

Ar gyfer y rhan fwyaf o gyrsiau sydd ar gael, caiff blaenoriaeth ei rhoi i ddarparwyr gofal cymdeithasol dan contract a mewnol sy'n gweithio ym mwrdeistrefi sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Rhaid i'r gwasanaeth gael ei contractio naill ai trwy Rhondda Cynon Taf neu Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Merthyr Tudful. Mae modd manteisio ar y cyrsiau yma waeth a yw'r gwasanaeth lleol yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol, gan sefydliad annibynnol neu gan sefydliad 3<sup>ydd</sup> sector. Er mwyn manteisio ar y cyrsiau, rhaid i leoliad gwaith yr aelod o staff fod o fewn ffin ddaearyddol Cwm Taf. Mae'r garfan hyfforddi yn derbyn cyfarwyddyd i ychwanegu darparwyr newydd at ein rhestr ddosbarthu gan gydweithwyr yng ngharfanau prynu a chomisiynu Rhondda Cynon Taf neu Ferthyr Tudful, neu gan gydweithwyr mewn 4Cs (mewn perthynas â lleoliadau plant a reoleiddir).

Yr eithriad i'r rheol yma yw unrhyw hyfforddiant sy'n cael ei gynnal yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch (gweler yr atodiad ar gyfer hyn). Mae sicrhau diwylliant iechyd a diogelwch cadarn yn gyfrifoldeb cyflogwr does dim modd ei ddirprwyo. Felly mae gwaharddiadau penodol o fewn canllawiau cylchlythyr Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cyd-fynd â'r grant sy'n gwahardd defnyddio'r arian yn y modd yma.

Cyflogwr sy'n bennaf gyfrifol am hyfforddi staff a bwriedir i gronfa Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP) fod yn ychwanegiad sylweddol i'w cronfeydd eu hunain.

Mae'n amod gan Lywodraeth Cymru bod rhaid i'r awdurdodau lleol ddod o hyd i adnoddau i gyfateb i gronfa grant SCWDP. Y gymhareb yw 70% o arian grant i 30% o gyllid y cyflogwr ei hun. Mae disgwyl i bob sefydliad wneud cyfraniadau tebyg i'w cyllidebau hyfforddiant eu hunain. Does dim modd defnyddio'r grant na'r arian cyfatebol ar gyfer hyfforddiant lechyd a Diogelwch

Pan fo'r galw gan y gwasanaethau cymdeithasol wedi'i fodloni, bydd modd i'r garfan hyfforddi ystyried ceisiadau gan wasanaethau cysylltiedig eraill gan gynnwys iechyd; addysg; y gwasanaeth prawf; yr heddlu; lleoliadau blynyddoedd cynnar. Bydd yr un nifer o leoedd (cyhyd ag yw'n bosibl) yn cael eu dyrannu i bob gwasanaeth.

Yn olaf, bydd unrhyw leoedd dros ben yn cael eu dosbarthu i feysydd gwasanaeth sy'n gofyn amdany'n nhw – mae enghreifftiau'n cynnwys y gwasanaethau hamdden, cymdeithas tai, Cymunedau yn Gyntaf a grwpiau cymunedol ehangach.

ON – os bydd cymhwysedd gwasanaeth/asiantaeth o ran blaenoriaeth yn cael ei gwestiynu, yna bydd y swyddog hyfforddi perthnasol a/neu'r rheolwr datblygu'r gweithlu yn gwneud penderfyniad cyn cadarnhau.

Mae pum ffactor pwysig yn cael eu hystyried gan swyddogion hyfforddi wrth ddyrannu lleoedd i asiantaethau partner mewn perthynas ag adnoddau prin.

1. A oes gan y sefydliad staff y mae eu swyddi wedi'u lleoli yn ardal ddaearyddol Rhondda Cynon Taf / Merthyr Tudful
2. A oes contract yn ei le i ddarparu gwasanaethau ar ran Gwasanaethau Cymdeithasol Rhondda Cynon Taf / Merthyr Tudful? Ydyn ni wedi cael cyfarwyddyd ganddyn nhw i ychwanegu eich sefydliad at ein rhestr ddosbarthu?
3. A oes gyda'r aelod staff enwebedig swydd sy'n gofyn am y sgiliau yma?

4. A yw'r hyfforddiant yn ymwneud â rhwymedigaethau lechyd a Diogelwch statudol? (Cyfrifoldeb cyflogwr yw sicrhau bod gan eu staff y sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â'u swyddi - Dim ond 10% o grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP) y mae hawl ei ddefnyddio ar gyfer y math yma o hyfforddiant).
5. Os yw'r sefydliad wedi'i leoli y tu allan i'r sir: A yw'r rheolwr wedi cysylltu â'r SCWDP lleol o ran yr hyfforddiant?

Hyfforddiant Diogelu – Nid yw'r cyfyngiadau yma'n berthnasol i hyfforddiant diogelu. Cysylltwch â'r swyddog hyfforddi diogelu lleol i gael gwybod a oes capasiti i helpu.

Atodiad: Telerau ac Amodau Grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (RhDGGCC)

Mae'r llythyr gan sefydliad Gofal Cymdeithasol Cymru (2024-25) yn nodi:

1. Cyflogwyr sy'n bennaf gyfrifol am ddarparu hyfforddiant, datblygiad a chymwysterau effeithiol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol o hyd. Nod grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (RhDGGCC) yw ychwanegu'n sylweddol at yr adnoddau a ddarperir gan gyflogwyr." (pwynt A.4 tudalen 1)
2. "Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu o leiaf 30% o gyllid grant cyfatebol - nodir y dyraniadau yn Atodiad 2. Gall rhanbarthau addasu'r ffordd y caiff y dyraniad 30% ei ddarparu, ond 30% yw lleiafswm y cyfraniad er mwyn sicrhau'r grant" (pwynt A.8)
  - Dim ond 10% o grant SCWDP mae modd ei ddefnyddio i gefnogi hyfforddiant a gaiff dim ond ei ddefnyddio i gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Mae hyn oherwydd mai cyfrifoldeb y cyflogwr yw cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Dydy hyn ddim yn cynnwys hyfforddiant gaiff ei gwblhau yn rhan o hyfforddiant eangach (e.e. yn rhan o hyfforddiant) (pwynt A. 27). Mae'r ddeddfwriaeth yma'n cynnwys:
    - Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
    - Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992
    - Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd
    - Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus ('RIDDOR') 1995
    - Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Cario 1998
    - Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998
    - Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 1992
    - Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974
    - Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

Mae'r grant yn ddarostyngedig i archwiliad blynyddol ac mae gofyn i ni ddatgan pa ganran o'r grant gaiff ei defnyddio ar hyfforddiant iechyd a diogelwch.

## Cyfleoedd hyfforddiant eraill

Yn ogystal â'r cyfleoedd sydd wedi'u rhestru yn y rhaglen yma, efallai yr hoffech chi gael gwybodaeth am asiantaethau partner eraill a allai fod o gymorth i chi. Efallai y bydd cost ar gyfer mynychu'r hyfforddiant yma.

<b>Interlink</b>	<b>Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful</b>
<b>Tŷ Glenview</b>	<b>Canolfan Gweithredu Gwirfoddol</b>
<b>Stryd y Llys</b>	<b>89-90 Stryd Fawr</b>
<b>Pontypridd</b>	<b>Pontmorlais</b>
<b>CF37 1JY</b>	<b>Merthyr Tudful</b>
	<b>CF47 8UF</b>
<b>(01443) 846200</b>	<b>01685 353900</b>
<a href="http://www.interlinkrct.org.uk/training/">http://www.interlinkrct.org.uk/training/</a>	<a href="https://vamt.net/en/services/training/">https://vamt.net/en/services/training/</a>

Pe hoffech chi fynd ar unrhyw un o'r cyrsiau hyfforddi yma, cysylltwch ag Interlink a Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT) yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r rhifau ffôn uchod.



## **Materion Hygyrchedd**

Wrth gadw lle ar gwrs wedi'i gynnal gan Garfan Hyfforddi a Datblygu Cwm Taf, sicrhewch eich bod chi'n rhoi gwybod i ni am unrhyw anghenion o ran hygyrchedd digidol. Byddwn ni'n ceisio'n gorau i'w diwallu nhw (nam ar y clyw, nam ar y golwg, ac ati).

### **Wrth gadw lle, rhowch wybod i ni am unrhyw staff sydd â'r canlynol:**

- Cadair olwyn
- Problemau o ran symudedd
- Problemau o ran clywed neu weld
- Problemau o ran llythrennedd a rhifedd
- Problemau y gallai'r amgylchedd dysgu effeithio arnyn nhw neu eu gwaethygu (e.e. epilepsi)
- Problemau sy'n ymwneud â llawdriniaeth neu anaf diweddar (e.e. problemau cefn)
- Anghenion dysgu eraill a allai eu hatal nhw rhag cyfranogi'n llawn

Mae'n bwysig eich bod chi'n rhoi gwybod i'r garfan weinyddu am hyn pan fyddwch chi'n cadw lle. Bydd hyn yn ein galluogi ni i rannu'r wybodaeth â'r hyfforddwyr a theilwra'r sesiynau fel eu bod yn diwallu anghenion y dysgwyr.

## **Y Gymraeg**

Pe hoffech chi unrhyw gyngor neu gymorth ar sut i feithrin sgiliau Cymraeg yn eich gweithlu, cysylltwch â Sarah Williams. Yna bydd modd iddi hi eich cyfeirio chi at Swyddogion y Gymraeg mewnol ar gyfer Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

## **Cymryd rhan mewn hyfforddiant ar blatfform rhithwir**

- Er mwyn ymuno â'r hyfforddiant, defnyddiwch y ddolen a gafodd ei hanfon drwy e-bost gan weinyddwr y cwrs.
- Mae'n bosibl y byddwch chi wedi cael deunyddiau cyn y cwrs. Dylid eu darllen i baratoi ar gyfer y sesiwn.
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ymuno â ni gan ddefnyddio dyfais electronig sy'n gweithio, e.e. gliniadur neu gyfrifiadur personol, ac ymgyfarwyddo â'r platfform hyfforddi cyn yr achlysur.
- Gwnewch yn siŵr bod eich camera wedi'i droi ymlaen trwy gydol y sesiwn, a bod eich meicroffon ar 'mute', ac eithrio y cewch chi'ch gofyn i wneud fel arall (e.e. yn ystod sesiynau grŵp). Mae hyn yn sicrhau bod synau cefndir ddim yn tarfu ar bawb sy'n cymryd rhan.
- Bydd yr hyfforddwr yn amlinellu unrhyw reolau cyffredinol eraill ynghylch ymddygiad ar-lein ar ddechrau'r sesiwn.
- Bydd yr hyfforddwr yn esbonio sut y bydd pawb yn cyflwyno'i gilydd naill ai ar lafar neu drwy'r cyfleuster 'chat'.
- Mae'n bwysig eich bod chi'n 'ymuno'. Mae bod yn weithredol yn hyn o beth yn hanfodol i brofiad dysgu llwyddiannus.
- Defnyddiwch y cyfleuster 'chat' os oes gyda chi gwestiwn i'r hyfforddwr. Bydd yr hyfforddwr wedyn yn penderfynu pryd i fynd i'r afael â nhw yn ystod y sesiwn.
- Bydd tystysgrifau electronig yn cael eu hanfon drwy e-bost at y rheiny sydd wedi cymryd rhan ar ôl i werthusiad wedi'i gwblhau ddod i law. Bydd y gwerthusiad yn cael ei anfon at bawb sydd wedi cymryd rhan yn y sesiwn.

<b>Pwnc</b>	<b>Hyfforddwr</b>	<b>Hyd:</b>
Bwyta â Chymorth (Gwasanaethau i Bobl Hŷn)  Cynorthwyo pobl sydd â nam gwybyddol i gael maeth da a chymorth.	Vicky Collins / Neen Cleverley / Grainne Kavanagh (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf - Therapi Lleferydd)	9.30am – 11.15am
Nodwch: Mae modd i weithiwr gofal ddefnyddio'i bresenoldeb ar y cwrs yn dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.		
<p><b>Cynulleidfa Darged:</b> Staff gofal uniongyrchol pobl hŷn mewn lleoliadau gofal cymdeithasol i oedolion (<i>gan gynnwys staff y mae eu swydd yn cynnwys paratoi meddyginiaethau, paratoi cynhyrchion tewychu a bwyd</i>) sy'n cefnogi pobl â nam gwybyddol i fwyta a llyncu.</p> <p><b>(Dydy'r cwrs yma <u>ddim</u> yn addas ar gyfer darparwyr anabledd dysgu – Cysylltwch â Ceri Watts am gyfleoedd yn ymwneud ag anabledd dysgu)</b></p>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi arwyddion a symptomau anawsterau llyncu a'r effaith ar yr unigolyn;</li> <li>• Deall pwysigrwydd gweadau bwyd a diod;</li> <li>• Urddas a pharch wrth gynorthwyo rhywun i fwyta;</li> <li>• Awgrymiadau ymarferol ar sut i gynorthwyo unigolyn wrth fwyta ac yfed;</li> <li>• Pwysigrwydd dilyn argymhellion.</li> </ul>		
<b>Dyddiad</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Dyddiad Cau</b>
17/04/2024	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen	28/02/2024
26/06/2024	Canolfan Fusnes Orbit	08/05/2024
11/09/2024	Ystafell 2, Tŷ Elái	24/07/2024

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch: [sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk](mailto:sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk) / [deana.newport@rctcbc.gov.uk](mailto:deana.newport@rctcbc.gov.uk)  
Anfonwch enwebiadau at: [Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk](mailto:Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk)

Pwnc	Hwylusydd	Hyd:
Profedigaeth a Cholled	Hosbis y Cymoedd	9.30am–1.30pm

Nodwch: Mae modd i weithiwr gofal ddefnyddio'i bresenoldeb ar y cwrs yn dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae'r sesiynau ymwybyddiaeth o brofedigaeth yn gyfle i:

- Gwella neu gadarnhau gwybodaeth
- Meithrin sgiliau
- Myfyrio ar agwedd a gwerthoedd, o ran profedigaeth, colled a galar
- Gwella hyder a chymhwysedd o ran cymorth yn ymwneud â galar a phrofedigaeth

Nodwch: mae modd i'r sesiwn yma fod yn un emosiynol, a gall staff elwa o gefnogaeth ar ôl iddyn nhw fynychu.

Dyddiadau	Lleoliad	Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau
27/09/2024	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen	09/08/2024

***Pe hoffech chi ofyn cwestiwn mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch: [sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk](mailto:sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk) / [deana.newport@rctcbc.gov.uk](mailto:deana.newport@rctcbc.gov.uk)  
Anfonwch enwebiadau at: [Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk](mailto:Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk)***

<b>Pwnc</b>	<b>Hyfforddwr</b>	<b>Hyd:</b>
Hyfforddiant Iechyd y Bledren a'r Coluddyn	Nyrsys Clinigol Arbenigol - Carfan y Bledren a'r Coluddion	9.30am – 12.30pm

Nodwch: Mae modd i weithiwr gofal ddefnyddio'i bresenoldeb ar y cwrs yn dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Cynulleidfa Darged:** Staff sy'n rhoi gofal a chymorth i bobl hŷn

**Nod:**

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i weithwyr gofal am arferion gorau cyfredol o ran gofalu am unigolion sydd â chamweithrediad y bledren a'r coluddyn, ynghyd â defnyddio a gofalu am offer a dyfeisiau wrinol.

**Amcanion:**

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd gan gyfranogwyr ddealltwriaeth o'r canlynol:

- ffactorau sy'n effeithio ar ymataliaeth
- mathau o anymataliaeth a'r hyn sy'n ei hachosi
- swyddogaeth arferol y bledren
- cymhorthion a chyfarpar
- agweddau tuag at ymataliaeth a chynorthwyo urddas y cleifion
- Cofnodi/nodi swyddogaeth y bledren/coluddyn

Dyddiad	Lleoliad	Dyddiad Cau
18/04/2024	Ystafell 2, Tŷ Elái	29/02/2024
05/09/2024	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen	18/07/2024

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch: [sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk](mailto:sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk) / [deana.newport@rctcbc.gov.uk](mailto:deana.newport@rctcbc.gov.uk)  
Anfonwch enwebiadau at: [Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk](mailto:Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk)

<b>Pwnc</b>	<b>Hyfforddwr</b>	<b>Hyd:</b>
Gofal Dementia mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn	Tony Waters	9.30am – 3:30 p.m. <i>(cyrhaeddwch o leiaf 15 munud cyn yr amser yma er mwyn cael paned a chofrestru).</i>

Nodwch: Mae modd i weithiwr gofal ddefnyddio'i bresenoldeb ar y cwrs yn dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Cynulleidfa Darged:** Staff gofal uniongyrchol sy'n gweithio ar draws amrywiaeth o leoliadau gofal cymdeithasol i oedolion.

Erbyn diwedd y gweithdy, dylai'r cyfranogwyr allu gwneud y canlynol:

- Deall ystyr y gair 'dementia'
- Meddu ar wybodaeth am wahanol fathau o ddementia a'r gwahaniaethau rhwng y symptomau a'r achosion
- Cymryd rhan mewn ymarfer er mwyn profi rhwystredigaeth y dioddefwyr
- Gwerthfawrogi bod teimladau'n hollbwysig
- Cydnabod bod ystyr i bob math o ymddygiad
- Ystyried 'ymatebion trallod' ('distressed reactions') ac ystyried y rhesymau amdanyn nhw
- Archwilio'r 5 egwyddor o ran anghenion seicolegol sydd wedi'u nodi gan Tom Kitwood

<b>Dyddiad</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Dyddiad Cau</b>
09/04/2024	Canolfan Fusnes Orbit	20/02/2024
14/05/2024	Ystafell 2, Tŷ Elái	26/03/2024
04/06/2024	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen	16/04/2024

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch: [sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk](mailto:sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk) / [deana.newport@rctcbc.gov.uk](mailto:deana.newport@rctcbc.gov.uk)  
Anfonwch enwebiadau at: [Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk](mailto:Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk)

<b>Pwnc</b>	<b>Hyfforddwr</b>	<b>Hyd:</b>
Ymwybyddiaeth o Ddiabetes	Ceri Jones, Bwrdd Iechyd Cwm Taf	9.30am–12.30pm

Nodwch: Mae modd i weithiwr gofal ddefnyddio'i bresenoldeb ar y cwrs yn dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Cynulleidfa Darged:** Staff gofal uniongyrchol mewn lleoliadau gofal cymdeithasol i oedolion.

### **Nodau ac Amcanion**

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd modd i chi:

- Nodi'r mathau gwahanol o Ddiabetes
- Nodi anawsterau cyffredin o ran byw gyda Diabetes
- Nodi triniaethau cyffredin ar gyfer Diabetes
- Nodi'r gofynion dietegol sylfaenol ar gyfer pobl sydd â Diabetes.

<b>Dyddiad</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Dyddiad Cau</b>
18/04/2024	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen	29/02/2024
23/05/2024	Canolfan Fusnes Orbit	04/04/2024
20/06/2024	Ystafell 2, Tŷ Elái	02/05/2024
18/07/2024	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen	30/05/2024
19/09/2024	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen	01/08/2024

***Pe hoffech chi ofyn cwestiwn mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:***  
*[sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk](mailto:sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk) / [deana.newport@rctcbc.gov.uk](mailto:deana.newport@rctcbc.gov.uk)*  
***Anfonwch enwebiadau at: [Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk](mailto:Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk)***

<b>Pwnc</b>	<b>Hyfforddwr</b>	<b>Hyd:</b>
Trefniadau diogelu rhag Colli Rhyddid – Diweddariad ar gyfer Rheolwyr Cartrefi Gofal ac Arweinwyr Tîm	Roger Laidlaw / Melanie Evans	9.30am -1pm

**Cynulleidfa Darged:** Rheolwyr Cartrefi Gofal Cofrestredig, Dirprwy Reolwyr, Arweinwyr Uned ac Uwch Ofalwyr

**Nod y sesiwn:**

Rhoi gwybod i staff mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio am y gofynion presennol o ran Trefniadau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Bydd hyn yn eu galluogi i gyflawni ymarfer/cadw cofnodion sy'n bodloni'r safonau o ran contractio ac archwilio.

**Amcanion**

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd modd i chi:

- cael eu hatgoffa o'r cysyniadau sylfaenol o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae hyn yn cynnwys asesu'r gallu i wneud penderfyniad, darparu cymorth a gofal er budd unigolyn mewn golwg ac sy'n seiliedig ar yr egwyddorion lleiaf cyfyngedig.
- cael cyfle i ystyried ffiniau achosion o 'golli rhyddid' yn ôl dyfarniad gan y Goruchaf Lys ym mis Mawrth 2014. Byddan nhw hefyd wedi cael eu hannog i ystyried 'y prawf asid' mewn perthynas â helpu preswylwyr yn eu lleoliad gwaith eu hunain.
- wedi cael gwybod am gyflwyno ffurflenni Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid newydd i Gymru ac wedi cael copïau o ffurflenni a dulliau mynediad at ffurflenni, taflenni a chanllawiau.
- cael gwybod am y gofynion ar gyfer cadw cofnodion o atgyfeirio ac awdurdodi, rhoi gwybod i wasanaeth y Crwner am farwolaethau yn unol â'r Trefniadau a'r trefniadau lleol ar gyfer rhoi gwybod i'r Garfan Prynu a Chomisiynu a'r AGGCC am gartrefi sy'n methu â bodloni'r gofynion yma.
- wedi cael awgrymiadau am gydymffurfio â safonau ym maes gweinyddu ymarferol a chynllunio gofal yn effeithiol.

Dyddiad	Lleoliad	Dyddiad cau
24/04/2024	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen	06/03/2024
19/06/2024	Canolfan Fusnes Orbit	01/05/2024

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

[sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk](mailto:sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk) / [deana.newport@rctcbc.gov.uk](mailto:deana.newport@rctcbc.gov.uk)

Anfonwch enwebiadau at: [Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk](mailto:Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk)



<b>Pwnc</b>	<b>Hyfforddwr</b>	<b>Hyd:</b>
Ymwybyddiaeth o Epilepsi	Epilepsy Action Cymru	9.30am – 11.30am

**Cynulleidfa Darged:** Staff gofal uniongyrchol a gofal yn y cartref (***dydy'r cwrs yma ddim yn addas i ddarparwyr anableddau dysgu***)

Nodau ac Amcanion y Sesiwn - Erbyn diwedd y sesiwn, dylai bod modd i'r rheiny sy'n cymryd rhan:

- Roi diffiniad o beth yw epilepsi a ffit (seizure)
- Egluro beth sy'n achosi ffit
- Meddu ar ddealltwriaeth o rai o'r ystadegau ynghylch epilepsi
- Dangos dealltwriaeth o'r gwahanol fathau o drawiadau a'u symptomau cysylltiedig
- Egluro sut i helpu rhywun sy'n cael ffit
- Deall heriau cymdeithasol o fyw gydag epilepsi
- Bod yn hyderus wrth gefnogi rhywun sy'n byw gydag epilepsi
- Gwybod ble i droi os oes angen gwybodaeth fwy penodol arnyn nhw

<b>Dyddiad</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Dyddiad cau</b>
11/04/2024	Dros Teams	22/02/2024
20/06/2024	Dros Teams	02/05/2024

***Pe hoffech chi ofyn cwestiwn mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:***  
*[sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk](mailto:sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk) / [deana.newport@rctcbc.gov.uk](mailto:deana.newport@rctcbc.gov.uk)*  
***Anfonwch enwebiadau at: [Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk](mailto:Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk)***

<b>Pwnc</b>	<b>Hyfforddwr</b>	<b>Hyd:</b>
Atal Pobl Rhag Cwmpo	Carfan Atal Pobl Rhag Cwmpo	9.30am–12.30pm
Nodwch: Mae modd i weithiwr gofal ddefnyddio'i bresenoldeb ar y cwrs yn dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.		
<b>Cynulleidfa Darged:</b> Staff gofal uniongyrchol.		
<p>Nod</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deall beth yw cwmpo</li> <li>• Nodi'r prif ffactorau risg posibl</li> <li>• Trosolwg o'r goblygiadau ar ôl cwmpo</li> <li>• Deall yr hyn mae modd ei wneud i atal/lleihau risg cwmpo</li> </ul>		
<b>Dyddiad</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Dyddiad cau</b>
22/04/2024	Ystafell 2, Tŷ Elái	04/03/2024
28/06/2024	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen	10/05/2024
09/09/2024	Canolfan Fusnes Orbit	22/07/2024

***Pe hoffech chi ofyn cwestiwn mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:***  
*[sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk](mailto:sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk) / [deana.newport@rctcbc.gov.uk](mailto:deana.newport@rctcbc.gov.uk)*  
***Anfonwch enwebiadau at: [Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk](mailto:Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk)***

<b>Pwnc</b>	<b>Hyfforddwr</b>	<b>Hyd:</b>
Clefyd Huntington	Cymdeithas Clefyd Huntington	9.30am – 11.00am
<b>Cynulleidfa Darged:</b> Staff ar bob graddfa sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ac sy'n gofalu am rywun sydd â Chlefyd Huntington.		
<b>Nodau ac amcanion:</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gallu egluro beth yw Clefyd Huntington</li> <li>• Gallu disgrifio pum symptom allweddol Clefyd Huntington</li> <li>• Gallu disgrifio tri pheth y gall gofalwr eu gwneud i gefnogi unigolyn â Chlefyd Huntington yn fwy effeithiol.</li> </ul>		
<b>Dyddiad</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Dyddiadau Cau</b>
03/06/2024	Dros TEAMS	15/04/2024

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch: [sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk](mailto:sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk) / [deana.newport@rctcbc.gov.uk](mailto:deana.newport@rctcbc.gov.uk)  
Anfonwch enwebiadau at: [Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk](mailto:Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk)

<b>Pwnc</b>	<b>Hyfforddwr</b>	<b>Hyd:</b>
Atal Wlserau sy'n Ffurio o Ganlyniad i Bwysedd	Kirsty Mahoney MSc, RGN Blaen Swyddog Gwaith Gweithredu a Chaffael Clinigol, Canolfan Arloesedd Clwyfau Cymru.	9.30am - 12.00pm

Nodwch: Mae modd i weithiwr gofal ddefnyddio'i bresenoldeb ar y cwrs yn dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Cynulleidfa Darged:** Holl staff gofal sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol i oedolion.

### Nod y sesiwn:

Galluogi'r dysgwr i nodi ffactorau risg ar gyfer datblygu wlserau o ganlyniad i bwysedd a deall sut i atal cleient agored i niwed rhag dioddef anafiadau o'r fath.

### Amcanion

- Disgrifio swyddogaethau'r croen
- Deall y diffiniad o wlser o ganlyniad i bwysedd
- Nodi pa ffactorau risg sy'n cyfrannu at ddatblygu wlser o ganlyniad i bwysedd.
- Nodi sut mae modd atal anaf o ganlyniad i bwysedd
- Esbonio pwysigrwydd archwilio'r croen a gofal croen a sut gall wneud hynny effeithio ar wlserau o ganlyniad i bwysedd, ynghyd â niwed arall i'r croen.
- Bod yn effro i gyfyngiadau personol os bydd wlser o ganlyniad i bwysedd yn datblygu a sut i geisio cymorth ac arweiniad.

Dyddiad	Lleoliad	Dyddiad cau
09/04/2024	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen	20/02/2024
08/05/2024	Ystafell 2, Tŷ Elái	20/03/2024
11/06/2024	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen	23/04/2024
18/07/2024	Canolfan Fusnes Orbit	30/05/2024
25/09/2024	Ystafell 2, Tŷ Elái	07/08/2024

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:  
[sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk](mailto:sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk) / [deana.newport@rctcbc.gov.uk](mailto:deana.newport@rctcbc.gov.uk)  
 Anfonwch enwebiadau at: [Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk](mailto:Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk)

<b>Pwnc</b>	<b>Hyfforddwr</b>	<b>Hyd:</b>
Gofal Lliniarol	Hosbis y Cymoedd	9:30am – 4:30pm

Nodwch: Mae modd i weithiwr gofal ddefnyddio'i bresenoldeb ar y cwrs yn dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Cynulleidfa Darged:** Cartrefi Gofal Preswyl a Gofal yn y Cartref.

### Nodau/Amcanion

- Diffinio gofal lliniarol a gofal diwedd oes.
- Trafod yr anghenion a'r gofal sy'n ofynnol ar gyfer cleifion sy'n derbyn gofal lliniarol.
- Cynnig trosolwg o'r ffyrdd o reoli symptomau.
- Sut i gyfathrebu mewn modd sensitif.
- Ystyried anghenion y teulu a hunanofal.

Dyddiad	Lleoliad	Dyddiad Cau
17/04/2024	Canolfan Fusnes Orbit	28/02/2024
22/05/2024	Ystafell 2, Tŷ Elái	03/04/2024
12/06/2024	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen	24/04/2024
09/07/2024	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen	21/05/2024
13/09/2024	Ystafell 2, Tŷ Elái	26/07/2024

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

[sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk](mailto:sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk) / [deana.newport@rctcbc.gov.uk](mailto:deana.newport@rctcbc.gov.uk)

Anfonwch eich enwebiadau at: [Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk](mailto:Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk) /

[hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk](mailto:hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk)

<b>Pwnc</b>	<b>Hyfforddwr</b>	<b>Hyd:</b>
Clefyd Parkinson	Sharon Jones, Nyrs Glinigol Arbenigol – Clefyd Parkinson, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf	9.30am - 12.30pm <i>(cyrhaeddwch o leiaf 15 munud cyn yr amser yma er mwyn cael paned a chofrestru).</i>

**Cynulleidfa Darged:** Holl staff gofal.

**Nod:**

Nod y cwrs yma yw helpu staff ar bob lefel mewn lleoliadau gofal i feithrin dealltwriaeth well o ran clefyd Parkinson.

**Amcanion:**

- Hybu a rhannu modelau arfer da ym maes gofal
- Trafod yr heriau y mae pobl sydd â chlefyd Parkinson yn eu hwynebu
- Ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â heriau ymarferol (e.e. symudedd, llyncu, cyfathrebu ac ati)

<b>Dyddiad</b>	<b>Lleoliad</b>	<b>Dyddiad Cau</b>
05/06/2024	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen	17/04/2024
11/09/2024	Canolfan Fusnes Orbit	24/07/2024

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch: [sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk](mailto:sarah.j.williams@rctcbc.gov.uk) / [deana.newport@rctcbc.gov.uk](mailto:deana.newport@rctcbc.gov.uk)  
Anfonwch eich enwebiadau at: [Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk](mailto:Emrys.jones2@rctcbc.gov.uk) / [hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk](mailto:hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk)

Pwnc	Hwylusydd	Hyd:
Hyfforddiant Cyflyrau Anadlol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	9.30am – 11.30am
Nodwch: Mae modd i weithiwr gofal ddefnyddio'i bresenoldeb ar y cwrs yn dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.		
<b>Cynulleidfa Darged:</b> Staff gofal uniongyrchol mewn gofal preswyl, gofal dydd a gofal cartref		
<p><b>Nod:</b> meithrin dealltwriaeth sylfaenol o'r ffordd mae cyflyrau anadlol yn gallu effeithio ar fywyd defnyddwyr gwasanaethau</p> <p><b>Amcanion:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi'r gwahanol fathau o gyflyrau anadlu</li> <li>• Nodi ffyrdd cyffredin o drin cyflyrau anadlu</li> <li>• Ystyried dulliau gofal anadlu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn hybu preifatrwydd ac urddas</li> </ul>		
Dyddiadau	Lleoliad	Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau
10/04/2024	Canolfan Fusnes Orbit	21/02/2024
04/09/2024	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen	17/07/2024

